# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Cwm**

**Leonard Cheshire Disability**
**Tŷ Cwm**
**Lôn Tŷ Cwm**
**Caerfyrddin**
**SA31 3GA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Tŷ Cwm

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Leonard Cheshire Disability |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 18/05/2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn byw bywydau hapus, iach a boddhaus yng nghartref gofal Tŷ Cwm. Mae'r awyrgylch hamddenol ym mhob rhan o'r gwasanaeth yn helpu'r bobl ac ymwelwyr i deimlo'n gyfforddus. Mae'r tîm o staff brwdfrydig a phroffesiynol yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl. Mae nyrsys a gweithwyr gofal yn dangos gwybodaeth drwyadl am y bobl sy'n cael cymorth. Mae'r bobl yn cael eu hannog i wneud dewisiadau bob dydd o ran sut maent yn byw eu bywyd, ac i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Caiff y bobl a'u perthnasau eu gwahodd i gyfrannu at y broses o adolygu eu cynlluniau gofal, er mwyn galluogi pob person i gael dewis a llais o ran sut y darperir ei gymorth.

Mae cyfraddau cadw staff yn dda, felly mae'r bobl yn gyfarwydd â'r gweithwyr gofal. Mae pob gweithiwr yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr uwch-staff ac mae amrywiaeth o hyfforddiant staff ar gael er mwyn helpu'r gweithwyr gofal i gefnogi'r bobl yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r gweithwyr gofal yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr ac maent yn cael sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd i drafod eu gwaith.

Mae tîm rheoli sefydlog, brwdfrydig yn anelu'n barhaus at ddatblygu gofal a chymorth y bobl lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd i siarad â'r bobl a'r gweithwyr gofal i gael eu hadborth ar y gwasanaeth. Mae sianeli cyfathrebu da yn amlwg, a chaiff ansawdd y gofal y mae'r bobl yn ei gael ei fonitro mewn modd hynod effeithiol gan yr Unigolyn Cyfrifol.

## Llesiant

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt ac sy'n eu gwneud yn hapus. Mae'r bobl a'u perthnasau yn gwybod ac yn deall pa gymorth sydd ar gael iddynt gan eu bod yn cael eu gwahodd i gymryd rhan weithredol yn eu trefniadau cymorth. Mae'r perthnasau yn dweud, *“They keep me up to date all the time, I am always welcome here and join in with activities”* and *“It is like family here and seeing X happy and smiling is the best I could wish for”*.

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd gan fod y gweithwyr gofal yn sicrhau bod pob person yn cael ei gynnwys wrth wneud penderfyniadau am ei gymorth. Mae'r cyfraddau cadw staff yn dda, felly mae'r bobl yn gyfarwydd â'r gweithwyr gofal, gan roi'r hyder iddynt y caiff eu hanghenion a'u dewisiadau eu deall. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn cynnwys dewisiadau unigol ac maent yn nodi beth sy'n bwysig i'r unigolion.

Mae'r awyrgylch hamddenol yn y gwasanaeth yn helpu'r bobl a'u perthnasau i deimlo'n gyfforddus. Anogir pob person i bersonoli ei amgylchedd fel y mynna. Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel, yn gyfforddus ac yn gartrefol, ac maent yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen. Caiff preifatrwydd a gwybodaeth bersonol y bobl eu hamddiffyn yn gyson. Mae'r gweithwyr gofal yn cael cymorth, arweiniad a hyfforddiant rheolaidd: maent wedi bod yn destun proses recriwtio dda ac mae uwch-aelodau o'r staff yn eu monitro’n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl. Gallant gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau i'w galluogi i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed.

Mae datganiad o ddiben y cartref yn disgrifio'n gywir y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu a beth sydd ar gael yn hawdd i'r bobl a'u perthnasau. Mae gan bob person sy'n defnyddio'r gwasanaeth gopi o'r canllaw ysgrifenedig. Mae'n darparu manylion am yr hyn y gall y bobl ei ddisgwyl gan y cartref, yn ogystal â manylion y broses gwyno pe bai angen iddynt ei defnyddio.

Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg er nad oes llawer o alw am gymorth uniaith Gymraeg ar hyn o bryd. Mae rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg ac mae dogfennau dwyieithog ar gael yn hwylus. Yn ystod yr arolygiad gwelsom staff yn siarad â'r bobl yn eu dewis iaith (Cymraeg). Mae'r staff cymorth sy'n siarad Cymraeg yn helpu'r aelodau o staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu ac i ddweud geiriau allweddol fel "Bore da" er mwyn iddynt allu meithrin eu sgiliau a rhyngweithio â phawb.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau cywir a chyfredol o ran sut mae'r gwasanaeth yn darparu eu cymorth. Mae'r rheolwr yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion pob person, ac mae pwyslais sylweddol ar sicrhau y byddai unrhyw berson newydd yn cyd-dynnu'n dda â'r bobl eraill yn y gwasanaeth.

Mae system cofnodi fanwl yn darparu cofnod clir o drefniadau cymorth y bobl. Mae'r asesiadau risg a'r cynlluniau personol yn disgrifio ymyriadau iechyd, yr hyn sy'n bwysig i bob person, ac mae system glir i gofnodi cyflyrau meddygol y bobl a sut maent yn newid. Mae'r uwch-aelodau o staff yn adolygu pob dogfen yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn parhau'n gyfredol.

Mae'r tîm o staff yn gweithio'n galed i sicrhau bod y bobl mor annibynnol â phosibl lle y gallant fod, a'u bod yn byw bywydau boddhaus, gan wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Ymhlith yr enghreifftiau mae mynd i wylio gemau rygbi'r chwe gwlad, mynd i weld eich hoff dîm mewn gemau rygbi, mynd a gwneud eich siopa eich hun, ymweliadau gan bobl o'r capel er mwyn cael cyfle i ganu gyda'ch gilydd.

Yn ystod gweithgaredd balŵn a pharasiwt roedd y staff a oedd yn siarad Cymraeg yn rhyngweithio â'r bobl yn eu dewis iaith. Llwyddodd y gweithiwr gofal i gynnwys pawb, gan gyfieithu beth gafodd ei ddweud yn Gymraeg. Roedd y cymorth a'r ymdrech i gynnwys dewis iaith y bobl yn wych. Mae'r staff sy'n siarad Cymraeg yn helpu'r staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu geiriau allweddol i'w dweud ac i'w deall fel “Bore da, Prynhawn da, Diolch" ac ati.

Mae arferion hylendid da iawn ar waith ym mhob rhan o'r cartref a gall y gweithwyr gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau lle bo angen. Mae'r gwasanaeth yn storio cynhyrchion glanhau yn ddiogel mewn cypyrddau dan glo ac mae nodiadau canllaw ar gyfer defnyddio'r cynhyrchion.

Mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r cofnodion gofal yn nodi unrhyw risgiau i iechyd a llesiant y bobl yn glir, ac mae'r cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel.

Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Byddent yn mynd at unrhyw uwch-aelod o'r staff, ond byddent hefyd yn cysylltu ag asiantaethau allanol fel y swyddfa ddiogelu leol pe byddent o'r farn bod angen iddynt wneud hynny.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod yr adeilad mewn cyflwr da ac yn cefnogi'r bobl sy'n byw yno. Mae'r rheolwr wedi gwneud cais i ailbaenio'r amgylchedd cyfan, ac mae'r gwaith paratoi wedi dechrau. Cynhelir archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr adeilad ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir yn ddiogel ac yn briodol i'w defnyddio.

Y tu allan, mae'r tŷ haf a'r ardd wedi cael eu cwblhau, gan gynnig lleoedd ychwanegol i'r bobl lle gellir cynnal amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys cerddoriaeth, potio, crefftau, ardaloedd ymlacio ac ardaloedd synhwyraidd. Mae tŷ gwydr hefyd yn cael ei adeiladu a chaiff y bobl eu hannog i dyfu llysiau yno.

Mae'r eiddo yn gartrefol, yn gynnes ac yn lân. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus yn byw yno. Mae ystafell breifat pob person yn ddiogel, yn fawr ac wedi'i phersonoli i adlewyrchu chwaethau a diddordebau'r person, gydag ornamentau, llenni a deunyddiau, lluniau a chelfi. Mae gwahanol ardaloedd cymunedol er mwyn sicrhau bod gan y bobl amgylchedd lle gallant ymlacio yn unol â'u hanghenion unigol.

Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn a llofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Mae gorsafoedd diheintio dwylo a chyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i bob aelod o'r staff ac ymwelwyr ym mhob rhan o'r cartref. Caiff gwybodaeth bersonol y bobl, ynghyd â chofnodion personél y cyflogeion, eu storio'n ddiogel, a dim ond aelodau awdurdodedig o'r staff all eu gweld.

Mae gweithdrefnau rheoli heintiau clir ar waith, ac mae'r gweithwyr gofal yn defnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol angenrheidiol wrth roi gofal personol. Mae'r allanfeydd tân yn glir o rwystrau ac mae cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod profion yn cael eu cynnal bob wythnos ar y larwm tân. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr weledigaeth glir o'r cymorth y mae'n ei ddarparu, ac agwedd gadarnhaol tuag at bob person sy'n cael cymorth a'r tîm o staff. Mae trefniadau goruchwylio rhagorol ar waith yn y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae archwiliadau rheolaidd yn monitro pob agwedd ar ofal y bobl i safon uchel, gan gynnwys meddyginiaeth, mesurau rheoli heintiau a chadw cofnodion, a chaiff unrhyw faterion eu datrys mewn modd amserol. Mae arolygon ar gael i'r bobl, y staff a'u perthnasau eu cwblhau sy'n gofyn am eu barn ar ansawdd y cymorth a roddir iddynt. Mae gan bob person gopi o'r polisi cwyno ac mae'r tîm rheoli yn annog y bobl i godi unrhyw bryderon. Mae polisi drws agored ar waith a chadarnhawyd hynny gan y staff, gan ddweud "*X's [manager] door is always open, and I can go to any of the management team, I feel happy and confident to"* a *"One thing I love about this place is we are all on one level, the management are so approachable and part of the team it is like family".* Dywedodd y bobl eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn pe byddai angen iddynt wneud hynny ac maent yn hyderus y byddai'r darparwr yn gwrando arnynt ac yn cymryd unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen, pe byddent yn gwneud hynny.

Mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd â'r holl hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi, ac mae cyfarfodydd staff yn rhoi cyfle i'r gweithwyr gofal drafod eu gwaith a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y gwasanaeth. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth ragorol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda iawn, ac mae ei adroddiadau chwarterol yn canolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant y bobl. Gwelsom adroddiadau sy'n dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn gynhwysol a'i fod yn gofyn am farn y bobl a'r staff, ac y caiff camau rhagweithiol eu cymryd o ganlyniad. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn nodi ac yn cynnwys pob cam gweithredu sydd ei angen i wella llesiant y bobl mewn adroddiad ar ansawdd y gofal a gaiff ei lunio bob chwe mis.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff, sy'n gyfredol ar y cyfan ac yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau presennol. Caiff polisïau eu datblygu'n ganolog, ac o ganlyniad, nid ydynt bob amser yn cyfeirio at ddeddfwriaeth, gweithdrefnau a chanllawiau sy'n benodol i Gymru, er enghraifft mae'r polisi diogelu yn fanwl ac yn glir, ond nid yw'n cyfeirio at Weithdrefn Diogelu Cymru Gyfan. Mae angen cynnwys y wybodaeth hon yn y polisi. Trafodwyd hyn â'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr, ac maent wedi gofyn i'r polisïau gael eu diweddaru fel eu bod yn benodol i'r ardal. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol hefyd wedi codi'r ffaith nad yw dyddiadau adolygu'r polisïau bob amser yn cael eu llenwi. Gwnaethom drafod hyn hefyd â'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr a fydd yn codi'r mater â'r tîm polisïau.

Mae cofnodion o sesiynau goruchwylio a gynhelir bob tri mis yn dangos y gall pob gweithiwr gofal drafod unrhyw faterion y mae'n awyddus i'w codi, mewn lleoliad ffurfiol, gan wybod y bydd cofnod o'r sgyrsiau. Dywedodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw bod y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn wych, eu bod yn hawdd mynd atynt a'u bod yn gefnogol iawn, a'u bod yn teimlo'n hyderus i ymgymryd â'u rôl. Dywedodd y staff wrthym "*The management here is Fantastic, the door is always open, we are a team, the manager works alongside us on the floor leading by example and wouldn't ask staff to do anything that they wouldn't do themselves*", ac "*It's not like other places where you feel seniors and managers are above you, we are all equal and a team, we are a strong unit that support each other*".

Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn dangos dealltwriaeth dda o'r polisi a'r weithdrefn diogelu a nodwyd ganddynt eu bod yn teimlo'n hyderus yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/11/2023